
# Taflen Ffeithiau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Sy'n gweithio gyda Blant Sy'n Derbyn Gofal a Phlant â Phrofiad o fod mewn Gofal

Siarad Gyda Fi
Talk With Me

Mae gan lawer o 'blant sy'n derbyn gofal' a phlant â phrofiad o fod mewn gofal anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu heb eu nodi. Mae'r rhain yn cynnwys anawsterau deall iaith (gwneud synnwyr o'r hyn y mae pobl yn ei ddweud) a defnyddio iaith (geiriau a brawddegau). Gall anghenion cyfathrebu hefyd gynnwys eu sgiliau sylw a gwrando, deall achos ac effaith, a sgiliau cymdeithasol.

Mae datblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant sy'n derbyn gofal a phlant â phrofiad o fod mewn gofal yn cefnogi meithrin perthynas, cyflawniad addysgol a chyfleoedd bywyd yn y dyfodol[1].




## Anghenion cyfathrebu plant sy'n derbyn gofal a phlant â phrofiad o fod mewn gofal


Gall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu rhai plant sy'n derbyn gofal a phlant â phrofiad o fod mewn gofal fod yn gysylltiedig â'u hamgylchedd. Mae 68% o'r plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi profi cam-drin neu esgeulustod[2] ac mae 42% o blant a fabwysiadwyd yn ddiweddar yng Nghymru wedi profi 4 neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod cyn cael eu lleoli i'w mabwysiadu[3]. Mae hyn yn eu rhoi yn y grŵp risg uchaf ar gyfer anawsterau yn ddiweddarach mewn bywyd[4].

Mae plant sy'n derbyn gofal a phlant â phrofiad o fod mewn gofal yn debygol o fod â risgiau i ddatblygiad arferol sy'n deillio o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ond hefyd o brofiadau cyn geni a gwendidau genetig[5].

Gall anawsterau ymlyniad ac unrhyw gam-drin neu esgeulustod blaenorol a thrawma dilynol hefyd gael effaith ar ddatblygiad sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant sy'n derbyn gofal[6].

Gall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu fod o ganlyniad i anhwylder iaith datblygiadol[7] neu'n gysylltiedig â chyflyrau eraill, fel anhwylder sbectrwm awtistiaeth, anhwylder sbectrwm alcohol y ffetws neu anabledd dysgu.





## Maint y broblem




Mae gan 10% o blant anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu parhaus ac mae hyn yn cynyddu i 50% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU[9].




Mewn astudiaeth ddiweddar, roedd gan 90% o'r rhai a oedd yn gadael gofal allu ieithyddol is na'r cyfartaledd, ac roedd 60% yn bodloni meini prawf ar gyfer bod ag Anhwylder Iaith Datblygiadol – cyflwr pan fo gan blant broblemau o ran deall a/neu ddefnyddio iaith lafar. Nid oedd yr un o'r bobl ifanc hyn wedi cael diagnosis o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu[10].




Canfuwyd patrwm tebyg mewn astudiaeth fach o bobl ifanc mewn gofal yn Awstralia: roedd gan 92% sgiliau iaith llafar a oedd yn is na'r ystod gyfartalog, ac roedd 62% ag anawsterau iaith sylweddol[11].

# Effaith anghenion cyfathrebu

Gall plant sy'n derbyn gofal a phlant â phrofiad o fod mewn gofal sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ei chael hi'n anodd deall yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthynt neu sicrhau bod pobl yn eu deall nhw. Gall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu hefyd effeithio ar y geiriau y gallant eu cofio neu eu gallu i esbonio neu nodi dilyniant digwyddiadau. Mae anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn aml yn gudd ac efallai bod plant hŷn yn arbennig wedi datblygu technegau masgio[1].

Mae'n bosibl y bydd rhai plant sy'n derbyn gofal a phlant â phrofiad o fod mewn gofal yn cyfathrebu drwy eu hymddygiad oherwydd eu hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Gall hyn arwain at batrwm o ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n gallu, heb gymorth priodol, arwain at ymddygiad troseddol wrth iddynt fynd yn hŷn. Gallant hefyd fod yn fwy agored i eraill yn manteisio arnynt.

Ar wefan Siarad Gyda Fi ceir taflen ffeithiau ar sut i reoli ymddygiad plant os oes ganddynt anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

# Sut i helpu

Gellir adnabod a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar unrhyw adeg ond gorau po gyntaf er mwyn lleihau'r effaith a gwella canlyniadau. Mae'r amgylchedd cyfathrebu yn rhagfynegydd mwy amlwg o iaith gynnar na chefndir cymdeithasol[8] felly gallwn wir wneud gwahaniaeth, dim ond drwy newid y ffordd yr ydym yn siarad â phlant a phobl ifanc!

**Amgylchedd sy'n addas i wrando** – mae'n anodd i blant wrando ar ddau beth ar unwaith felly ceisiwch leihau sŵn cefndir a lleihau pethau sy'n tynnu eu sylw wrth i chi gael sgwrs e.e. diffodd setiau teledu a sgriniau.

**Rhyngweithiadau ymatebol** – Siaradwch gyda'r plentyn am yr hyn y mae ganddynt ddiddordeb ynddo a'r hyn y mae'n ei wneud. Cofiwch aros ychydig eiliadau'n hirach i roi amser iddynt ddechrau neu ymuno yn y sgwrs ac i ddeall yr hyn yr ydych yn ei ddweud.

**Cymorth gweledol** – Defnyddiwch wrthrychau, lluniau neu ystumiau i ddangos i'r plentyn beth sy'n mynd i ddigwydd yn ystod y dydd neu'r hyn yr ydych yn gofyn iddo ei wneud. Bydd hyn yn helpu'r plentyn i ddeall eich cyfarwyddiadau.



# Beth nesaf?

## Darllen

Cer i www.llyw.cymru/siaradgydafi i gael gwybodaeth ac adnoddau i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

## Dysgu

Cer i: www.exchangewales.org/cy/lleferydd-iaith-a-chyfathrebu-adnoddau-hyfforddi ar gyfer fideos hyfforddi ymarferwyr.

## Rhannu

Rhannwch wefan a'r dudalen facebook @siaradgydafi gyda rhieni, gofalwyr a chyd-weithwyr.

## Cyfeirio

Cysylltwch ag Ymwelydd Iechyd y plentyn, Nyrs Iechyd yr Ysgol neu staff yr Ysgol os oes gennych bryderon am sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plentyn. Dylech ystyried cyfeirio at Therapi Iaith a Lleferydd arbenigol os oes effaith sylweddol ar y plentyn neu os bydd pryderon yn parhau dros amser.


**Cyfeiriadau:**

[1] RCSLT Factsheet 'Supporting looked after children'.

[2] NSPCC (2019) 'Statistics briefing: looked after children'.

[3] Anthony et al (2019) 'Adverse Childhood Experiences of Children Adopted from Care: The Importance of Adoptive Parental Warmth for Future Child Adjustment'.

[4] Oxford Brooks University (2021) 'National Adoption Service for Wales Evaluation of the Adoption Support Framework. Institute of Public Care'.

[5] Selwyn (2017) 'Post-adoption support and interventions for adoptive families: Best practice approaches'.

[6] Windsor et al (2011) 'Effect of Foster Care on Young Children's Language Learning'.

[7] Bishop et al (2016) 'CATALISE: a multinational and multidisciplinary Delphi consensus study of problems with language development'.

[8] Roulstone et al (2011) 'Investigating the role of language in children's early educational outcomes'.

[9] ICAN (2017) 'Talking About a Generation Report'.

[10] Clegg et al (2021) 'Developmental Language Disorder (DLD) in Young People Leaving Care in England: A Study Profiling the Language, Literacy and Communication Abilities of Young People Transitioning from Care to Independence'.

[11] Snow et al (2020) 'The language, literacy and mental health profiles of adolescents in out-of-home care: An Australian sample'.